



**TAG Uwch**

1376/51

**CYMRAEG – IAITH GYNTAF CY6  
GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH A DEFNYDDIO'R IAITH  
(Papur Ysgrifenedig)**

A.M. DYDD MAWRTH, 14 Mehefin 2011

2¼ awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **tri** chwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylid defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **1¼ AWR** ar Adran A ac **AWR** ar Adran B.

Dylech dreulio amser digonol yn cynllunio eich traethawd yn Adran A.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac y bydd felly'n profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

## ADRAN A – GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH

1. Darllenwch yn ofalus y darn isod sy'n cyfleu teimladau'r Hen Wŷr sy'n byw yn yr Weirglodd ac Aled yr ŵyr sy'n ffermio'r Graig, yna atebwch y cwestiwn a ganlyn.

Ysgrifennwch **draethawd** yn dadansoddi **cynnwys** ac **arddull** y darn.

Wrth ddadansoddi, dylech gofio:

- defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau
- cyfeirio at **weithiau llenyddol** eraill yr ydych yn gyfarwydd â nhw sydd yn ymdrin â **thema neu themâu** tebyg gan drafod a yw'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol.

*(Gallwch gyfeirio at weithiau Cymraeg perthnasol a ddarllenwyd neu a welwyd yn ogystal â thestunau a astudiwyd gennych.)* [60]

### Yr Hen Wŷr

Duw yn unig a ŵyr beth ddaw ohonon ni. Mae Duw yn llond pob lle, presennol ymhob man. Ond mae yna rywun arall yn gwybod hefyd heblaw'r Bod Mawr, a fi ydy hwnnw. Neu o leiaf mae yna rywbeth y tu mewn i mi'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd i ni i gyd. Nid llais ydy o – achos fydda i byth yn gadael iddo fo siarad.

Dydy'r hyn mae o eisiau ei ddweud ddim yn mynd i roi esmwythyd i hen wŷr fel fi. Mi fydda i'n gwenu ar bobol sy'n gofyn petha fel, 'Be ddaw ohonon ni, dudwch?' Gwenu'n glên a dweud, 'Yr Hollalluog a ŵyr, ac mi adawan ni betha yn ei ddwylo cadarn O.'

Mi fyddan nhw'n dweud fy mod i'n lwcus fod gen i ffasiwn ffydd. Ffydd o ddiawl. Does gen i ddim ffydd o gwbl – dwi wedi gadael petha yn ei ddwylo cadarn O ddegau o weithia cyn heddiw. Ond mewn cors rydan ni o hyd, hyd at ein \*bogeilia mewn llysnafedd. Rhyw le felly ydy'r cwm yma, *does* yma ddim trefn. Lle felly buodd o, ac felly y bydd petha hyd at dragwyddoldeb. Siawns na fydd tragwyddoldeb yn hir yn fy nghyrraedd i bellach.

(\*canol)

'Dach chi'n iawn?'

Hi sydd yno yn llenwi'r drws. Hi, Lilian y ferch.

'Be sy? Pam nad ydach chi wedi gwneud tân?'

Mae hi'n flin am mod i'n iawn, a hitha wedi rhuthro i lawr i weld beth sy'n bod arna i. Dim ond wedi codi fymryn yn hwyrach nag arfer ydw i, a heb gael cyfle i gynna tân. Os bydd yna fwg yn y simdde, mae hi'n gwybod fy mod i ar dir y byw.

Mae yna natur gweiddi yn Lilian. Does dim rhaid iddi weiddi, dwi'n clywed yn iawn.

'Be sy'n bod ar y ffôn?' meddai hi.

Dydw i'n da i ddim efo petha felly, ac mae'r hen ffôn newydd yma'n un dila. Fydda i byth yn cofio ei rhoi yn ôl yn ei chrud ac wedyn mae Lilian yma'n dweud y drefn.

'Tydach chi ddim yn trio. Mae gen i ddigon i'w wneud heb ruthro i fan hyn yn disgwyl eich gweld chi'n \*lledan ar lawr...'

(\*ar wastad eich cefn)

Mae hi'n ddigon ffeind, cofiwch. Dim ond ei bod hi wedi cymryd arni ei hun i gario pob croes welith hi, hyd yn oed rhyw groesau bach fel priciau coed tân, wedi eu gadael hwnt ac yma. Mi fydda hi'n gwneud hynny pan oedd hi'n hogan fach ers talwm hefyd. Dwi'n cofio Gwenni, ei mam yn ei holi hi pam bod ei phocedi hi bob amser yn llawn o \*friglach a cherrig. Ac ateb Lilian oedd bod yn rhaid iddi eu codi nhw, achos petai hi'n eu gadael nhw lle'r oedd nhw, mi fyddai yna ryw danchwa ofnadwy yn siŵr o ddigwydd. Ac felly mae hi byth, ofni'r gwaetha bob amser.

(\*mân frigau)

A dyna ni, mae Gwenni wedi hen fynd, ond mae Lilian yn dal i chwilio am gracia ac yn dal ati i godi croesau pawb. Ma hi'n codi pob un, ac yn eu mwytho nhw, a'u cadw nhw'n glos, glos at ei mynwes.

'Wel dowch rŵan 'ta, mi wna i uwd i chi. Wedyn mi fydd rhaid i mi fynd – mae Aled angan help i lwytho.'

‘Ydy o am fynd i’r sêl?’

Efallai fod siawns i mi gael mynd efo fo. Mae gen i bethau sydd angen eu gwneud yn dre.

‘Gadewch iddo fo fynd ei hun. Dydy o ddim angan chi yn ei gwt o bob munud...’

A dyna hi eto’n cadw cefn Aled, yr hogyn yna sy ganddi. Tydi hi wedi ei ddfifetha fo’n dwll?

Dwi’n medru gweld Aled wrthi’n trio hel yr ŵyn i’r gorlan ucha... ond does yna fawr o siâp arno fo chwaith. Mae o’n rhy bell i mi glywad dim, ond dwi’n gwybod ar ei osgo fo nad ydy o ddim mewn hwylia – rhywun wedi dwyn ei uwd o mwn, neu ryw hogan ddim yn plesio.

Does ’na fawr o haearn y Graig ynddo fo.

### Aled

Dwi’n gwybod mod i ar fai yn colli mynadd efo Taid fel’na, ond mae o’n gofyn amdani weithia. I be uffarn roedd angan iddo fo ddod i fyny at y corlanna? Mi faswn i wedi medru llwytho’r ŵyn yna a chael pris da, heblaw amdano fo’n \*rhusio’r ŵyn ac yn drysu’r ast. Mi golles i sêl dda o’i achos o. Fedra i ddim gwneud mwy na dwi’n ei wneud yn barod yn y twll lle ’ma. Does yma ddim byd, dim ond wyneb yr hen graig yna’n syllu’n hyll arna i drwy’r dydd, bob dydd. Mae hi’n union ’run fath â llygad fawr lidiog yn fy nilyn i, yn fy ngwyllo i, a rhyw hen ddeigr yn oer yn llithro o’i chornel, nes troi boch y graig yn llysnafedd gwyrdd afiach.

Nid fel hyn roedd petha i fod. Nid y fi sydd i fod yma. Wnes i erioed ddweud mai dod adra i ffarmio roeddwn i am wneud. Wnaethon nhw ddim dweud mai ’nyletswydd i oedd bod adra yn y Graig – does yna neb byth yn dweud dim yn y lle yma. Mae yna fwy o eiriau heb gael eu dweud yn y Graig nag sydd o ddfafnau glaw yn y niwl. Dim ond edrych arna i fyddan nhw. Edrych a disgwyl.

‘Dydy Aled ddim yn hogyn coleg...’ Felly bydda Taid wrthi.

Pwy benderfynodd mai fi oedd yr un oedd wedi gwirioni ar godi i \*borthi ar fore o niwl rhewllyd ynghanol mis Ionawr? Dwi’n meddwl mod inna’n ddiawl o greadigol i fedru dychmygu gwneud bywoliaeth yn rhyngu byw mewn twll fel hwn. Ar Taid mae’r bai am hynny.

Reit, waeth i mi heb â \*stwna yn fan hyn chwaith. Mi fydd yn rhaid mynd i nôl Meg o’r Weirglodd – mi ddihangodd at Taid bora ddoe.

Mae’r Weirglodd yn dawel, dim smic, ond mae’r drws yn llydan agored, a welingtyns Taid wedi’u parcio yn daclus y tu allan.

Dwi’n mynd i mewn ac yn gweiddi.

‘Dach chi’n iawn, Taid?’

‘Pwy sy ’na?’ medda fo. Mae o â’i ben yn y twll dan staer yn chwilio am rywbeth.

‘Yr Ayatollah, pwy dach chi’n feddwl sy ’ma...?’

Waeth i mi heb â thrio dal pen rheswm a does ar Meg ddim rhyw lawer o awydd symud. Mae hi’n gorwedd fel brenhines ar gôt Taid yn gwyllo’r ieir wrth ddrws y cefn. Ond mae hi’n dŵad ling di long yn y diwedd.

Wrth i mi gyrraedd giât y ffridd mae’r niwl wedi dod i lawr ac yn cydio amdana i ’run fath â gwe dawel. Mae o’n niwl od rhywsut, yn gynnas a thyner, yn lapio amdana i gan bylu pob un synnwyr. Mae o’n glynu at y grug, ac yn gwneud iddyn nhw sgleinio i gyd, ac yn aros ar benna’r brwyn fel dagra llonydd.

Dwi’n gwybod am wal y ffridd, gwybod am bob carreg a thwmpath brwyn, dwi’n gwybod yn iawn am y ffos fach a’r rhipyn gwlyb o \*siglen sydd rhaid i mi ei chroesi cyn cyrraedd at y ddraenen a llwybyr y mynydd. Dwi’n gwybod, os medra i gael fy nhroed ar y twmpath brwyn ucha acw a neidio, y bydda i a ’nhraed yn sych.

Ond dydy petha ddim yn iawn heddiw. A dyma fi wedi methu’r llwybyr nes mod i ynghanol y siglen. Dwi’n trio straffaglu i ddod yn rhydd, yn tynnu fy hun i fyny allan o’r llysnafedd, a hwnnw’n cydio am fy nghoesa i fel rhyw wefus fawr afiach yn sugno, sugno. Rydw i’n anesmwytho, mae yna ryw hen deimlad tywyll yn dod drosta i...

Detholiad o *Y Graig*  
Haf Llewelyn  
Y Lolfa

## ADRAN B – DEFNYDDIO'R IAITH

### 2. Ysgrifennu Creadigol

Rydych chi wedi gorfod colli neu aberthu eich rhyddid mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Ysgrifennwch ddarn o ryddiaith greadigol yn disgrifio eich sefyllfa. Gall y gwaith fod yn waith dychmygol. (Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen.) [50]

### 3. Cyfieithu

Cyfieithwch y darn canlynol i'r Gymraeg. [50]

When Dic Jones won the chair at the National Eisteddfod in 1966 he was hailed as a master of the traditional metres whose like had not been since medieval times. This meant that he could be compared with poets like Dafydd ap Gwilym whose work is one of the true treasures of Welsh literature.

Dic Jones showed early promise by winning the chair in five consecutive years at the Eisteddfod held by the Urdd.

The poem which brought him prominence on a national stage was entitled *Cynhaeaf* and it was praised by the adjudicators for its rich imagery drawn from the poet's experience of the natural world and the passing of the seasons.

Dic Jones farmed in Blaenannerch in lower Cardiganshire as his family had done for centuries. He knew himself to be a poet while still a pupil at school and was soon taken under the wing of Alun Cilie. It was not long before he could turn out a perfect *englyn* and knew the rules of alliteration and rhyme.

During his last years he became archdruid and also he tried to find ways of maintaining his farm against the various difficulties facing the farming industry. One of his ideas was to hire part of his land for summer visitors who were put up in \*teepees.

\*teepees - tipîs

Addasiad o erthygl yng nghylchgrawn *Cambria*



**TAG Uwch**

1376/51-A

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF CY6**  
**WELSH: FIRST LANGUAGE CY6**  
**GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH A**  
**DEFNYDDIO'R IAITH**  
**APPRECIATION OF LITERATURE AND**  
**USE OF LANGUAGE**

**(Papur Ysgrifenedig)**

**(Written Paper)**

A.M. DYDD MAWRTH, 14 Mehefin 2011

A.M. TUESDAY, 14 June 2011

2¼ awr / 2¼ hours

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau**  
**For the attention of the Examinations Officer.**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **tri** chwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylid defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **1¼ awr** ar Adran A ac **Awr** ar Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Atgoffir chi mai mai papur synoptig yw hwn ac y bydd felly'n profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

**ADDITIONAL MATERIALS**

*In addition to this paper, you will need a 12 page answer booklet.*

*Dictionaries are not permitted in this examination.*

**INSTRUCTIONS TO CANDIDATES**

*Use black ink or black ball-point pen.*

*Answer the **three** questions.*

*Write your answers in the separate answer booklet provided.*

*Where it is necessary to express your opinions, you should give reasons for them and refer to the opinions of others when appropriate.*

*You should use literary criticism terms and quotes.*

*You are reminded that assessment will take into account the quality of written communication used in your answers.*

*You should spend **1¼ hours** on Section A and **1 hour** on Section B.*

**INFORMATION FOR CANDIDATES**

*The number of marks available are shown in brackets at the end of each question.*

*You are reminded that this paper is synoptic and will therefore test the information, understanding, and skills you have developed by studying the subject.*